# PWYLLGOR SAFONAU

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 14 Medi 2016

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL:** | **Aelodau Annibynnol**<br><br>Mr. Michael Wilson (Cadeirydd)<br>Mr. Islwyn Jones (Is-Gadeirydd)<br><br>Mrs. Denise Harris Edwards<br>Mrs. Dilys Shaw<br><br>**Yn cynrychioli'r Cynghorau Tref a Chymuned**<br><br>Y Cynghorydd John Roberts<br><br>**Yn cynrychioli'r Cyngor Sir**<br><br>Y Cynghorydd Dafydd Rhys Thomas |
| **WRTH LAW:** | Swyddog Monitro,<br>Cyfreithiwr (Llywodraethu Corfforaethol) (MY),<br>Pensaer Gwasanaethau Digidol (SWJ) (mewn perthynas ag Eitem 3),<br>Rheolwr Datblygu Adnoddau Dynol (MW) (mewn perthynas ag Eitem 4),<br>Swyddog Pwyllgor (MEH). |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Neb |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Y Cynghorydd Trefor Lloyd Hughes |

### 1 DATGANIAD O DDIDDORDEB

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o ddiddordeb.

### 2 COFNODION Y CYFARFOD

Cadarnhawyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 9 Mawrth, 2016 fel rhai cywir.

- **Materion yn codi o gofnodion y Panel Caniatâd Arbennig ar 24 Medi, 2015**

  Holodd yr Is-Gadeirydd a fyddai hyfforddiant yn cael ei gynnal ar gyfer Aelodau'r Pwyllgor Safonau ar Ganiatadau Arbennig. Ymatebodd y Swyddog Monitro y bydd trefniadau'n cael eu gwneud i gynnal hyfforddiant ar Ganiatadau Arbennig. Dywedodd ymhellach fod staff y Cyngor yn cael sesiynau hyfforddiant ynghylch y penderfyniadau a wneir gan y Pwyllgor Gwaith ac a gyfeirir wedyn i'r Cyngor llawn i'w cadarnhau. 'Roedd y Swyddog Monitro yn ystyried y byddai rhan o'r sesiwn hyfforddi honno yn ddefnyddiol ar gyfer Aelodau'r Pwyllgor Safonau.

  Dywedodd y Swyddog Monitro y cynhelir sesiynau hyfforddi gydag aelodau etholedig newydd ynghylch Cyfansoddiad y Cyngor yn dilyn etholiadau'r Cyngor Sir ym Mai 2017. Bydd aelodau'r Pwyllgor Safonau yn cael gwahoddiad i fod yn bresennol hefyd.

- **Cynghorau Tref a Chymuned - Gwefan**

  Dywedodd y Swyddog Monitro na chafwyd ymateb hyd yma gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ynghylch pa gamau y bydd yn eu cymryd mewn perthynas â Chynghorau Cymuned nad ydynt yn cydymffurfio â'r gofyniad i sefydlu gwefan.

**3** **DIWEDDARIAD AR GOFRESTRAU AR-LEIN YR AELODAU**

Rhoddodd y Pensaer Gwasanaethau Digidol ddiweddariad llafar ar y gwaith o symud datganiadau o ddiddordeb / rhoddion a lletygarwch ar-lein a thynnodd sylw at y prif faterion fel a ganlyn: -

- **Cofrestr o Diddordebau ar-lein - aelodau i allu dewis p'un ai i lenwi'r ffurflen ar y safle Cymraeg neu'r safle Saesneg**

  Eglurwyd y broses gyfredol i'r Pwyllgor ac fe nodwyd nad oedd y system Modern.Gov wedi cael ei datblygu i weithredu'n ddwyieithog. Y gwaith a wnaed i ganiatáu i aelodau etholedig ac aelodau lleyg roi manylion i mewn yn ddwyieithog oedd bod yr aelod yn rhoi ei manylion / fanylion i mewn yn y Gymraeg a'r Saesneg yn y ffurflen Cofrestru Diddordeb drwy system allrwyd y gwasanaethau democrataidd. Nid oes unrhyw opsiwn i'r aelod roi manylion dwyieithog i mewn yn uniongyrchol i'r ffurflen Gymraeg ar gyfer Cofrestru Diddordeb. Mae'n rhaid i'r Tîm Gwasanaethau Digidol wedyn gyfieithu'r manylion a gofrestrwyd gan yr aelodau. Dywedodd y Pensaer Gwasanaethau Digidol fod Modern.Gov wedi cyflwyno cais grant i'r Cynulliad yn 2015 yn gwneud cais am arian i wneud y system yn gwbl ddwyieithog, ond yn anffodus fe'i gwrthodwyd. Nododd y byddai datblygiad sydd wedi ei deilwrio'n bwrpasol i'r diben yn costio oddeutu £10k.

- **Ffurflen ar-lein ar gyfer cofrestru Rhoddion a Lletygarwch - newidiadau i'r ffurflenni ar-lein Cymraeg a Saesneg i ffurf pdf**

  Gall aelodau roi gwybodaeth am roddion a lletygarwch i mewn i'r system yn ddwyieithog trwy ddefnyddio'r ffurflen ar-lein gyfredol. Mae'r gofyniad i ychwanegu 'meysydd' i'r ffurflen gyfredol i adlewyrchu'r fformat pdf atodedig yn golygu y bydd angen datblygiad a deilwriwyd yn arbennig i'r pwrpas. Gellir ychwanegu 'swigen gymorth' at y labelu i gynorthwyo. Nodwyd y byddai angen rhoi hyfforddiant i'r aelodau i sicrhau eu bod yn llenwi'r blwch sylwadau gyda data sy'n adlewyrchu cwestiynau a ofynnwyd yn y fformat pdf. Fodd bynnag, dywedwyd bod ychwanegu ychydig o flychau ychwanegol i'r system yn cael sgil-effaith sylweddol ar rannau eraill o'r system a rhagwelwyd y byddai'r costau'n oddeutu £10k.

- **Datgan diddordebau mewn cyfarfodydd - galluogi aelodau i gofrestru eu diddordebau eu hunain ar-lein cyn y cyfarfod**

  Mae Aelodau yn cwblhau ffurflenni datgan diddordeb cyn neu yn ystod cyfarfodydd. Y system ar hyn o bryd yw bod y ffurflenni'n cael eu hanfon ymlaen i'r Gwasanaethau Pwyllgor sy'n cyfieithu ac yn ychwanegu'r datganiadau i'r system Modern.Gov wrth baratoi cofnodion cyfarfodydd. Mae'r datganiadau o ddiddordeb mewn cyfarfodydd yn ymddangos ar wefan y Cyngor ar gyfer pob aelod unigol. Rhagwelwyd y byddai'n costio oddeutu £ 7,500 i ychwanegu blychau ychwanegol at y system.

  Oherwydd bod gan yr holl awdurdodau lleol yng Nghymru sy'n defnyddio'r system Modern.Gov yr un gofynion o ran dwyieithrwydd ac e-ddemocratiaeth, dywedodd y Pensaer Gwasanaethau Digidol y byddai'n rhesymol i godi'r materion hyn yng nghyfarfod nesaf y Grŵp Defnyddwyr ym mis Tachwedd ac awgrymu bod datblygiad ar y cyd yn cael ei ariannu gan yr awdurdodau sydd â diddordeb.

**PENDERFYNWYD nodi'r adroddiad a chael diweddariad am y cynnydd a wnaed mewn perthynas â Chofrestrau Ar-lein yr Aelodau.**

**GWEITHREDU: Fel y nodwyd uchod.**

**4** **RHAGLEN HYFFORDDIANT DDRAFFT AR GYFER AELODAU NEWYDD YM MIS MAI 2017**

Cyflwynwyd - adroddiad ar y cyd gan y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd a'r Rheolwr Datblygu Adnoddau Dynol mewn perthynas â'r rhaglen hyfforddiant ddrafft ar gyfer Aelodau newydd ym mis Mai 2017.

Dywedodd y Rheolwr Datblygu Adnoddau Dynol fod y cynllun datblygu yn 'rhaglen dreigl' o sesiynau gyda'r bwriad o barhau i atgyfnerthu'r gwaith o gefnogi aelodau yn eu rolau ac i wella safonau a datblygu arferion da ar gyfer yr Aelodau cyfredol a'r aelodau newydd a etholir ym mis Mai 2017. Cyn belled ag y bo modd, mae'r rhaglen yn ceisio darparu ar gyfer anghenion hyfforddi'r Aelodau. Paratowyd y Cynllun Datblygu a oedd ynghlwm wrth yr adroddiad am y cyfnod Ebrill 2016 - Mawrth 2017 er mwyn tynnu sylw at y prif gyfleoedd hyfforddiant a gynigir ar gyfer y flwyddyn ariannol gyfredol. Mae'r Cynllun wedi cael ei ddiweddaru ers iddo gael ei fabwysiadu gan y Cyngor llawn ym mis Mai 2016 er mwyn cymryd i ystyriaeth y sesiynau hyfforddi ychwanegol a roddwyd i Aelodau. Dywedodd y Swyddog ymhellach y bydd yr aelodau newydd a etholir ym Mai 2017 yn cael holiadur er mwyn gallu darganfod lefel eu sgiliau TG fel y gellir gweld pa hyfforddiant y byddant ei angen. Yn ogystal, mae cyfres o becynnau e-ddysgu ar gael i gefnogi aelodau yn eu rolau hefyd.

Yn ogystal, mae Rhaglen Gynefino ddeuddeng mis wedi cael ei datblygu gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ar y cyd â'r holl Awdurdodau Lleol yng Nghymru i baratoi am y cyfnod yn dilyn etholiadau 2017. 'Roedd y Rhaglen gynefino arfaethedig ynghlwm wrth yr adroddiad.

**PENDERFYNWYD nodi'r adroddiad a bod y Pwyllgor Safonau yn cael gwybodaeth am yr hyfforddiant a ddarperir gan y Cyngor.**

**GWEITHREDU: Fel y nodwyd uchod.**

## 5 CANLLAWIAU DIWYGIEDIG GAN OMBWDSMON GWASANAETHAU CYHOEDDUS CYMRU AR Y CÔD YMDDYGIAD I AELODAU

Cyflwynwyd - adroddiad gan y Cyfreithiwr (Llywodraethu Corfforaethol) ar y canllawiau diwygiedig a gyhoeddwyd gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ar gyfer (a) Cynghorau Sir a Chynghorau Bwrdeistref Sirol, Awdurdodau Tân ac Achub ac Awdurdodau Parciau Cenedlaethol, a (b) Cynghorau Cymuned.

Amlygodd y Cyfreithiwr (Llywodraethu Corfforaethol) y prif newidiadau (a) i'r canllawiau i aelodau awdurdodau lleol : -

- Sancsiynau
- Caniatâd i apelio
- Rhoi gwybod am dorri amodau
- Diddordeb Personol – Materion Ward a materion yr Awdurdod
- Diddordebau Personol a Diddordebau sy'n Rhagfarnu - Enghraifft Newydd
- Diddordeb Personol a Diddordebau sy'n Rhagfarnu - Sylwadau Ysgrifenedig
- Diddordeb Personol a Diddordebau sy'n Rhagfarnu - Enghraifft Ychwanegol
- Goddefebau
- Cofrestr Diddordebau
- Cofrestru Diddordebau

a

(b) 'roedd y canllawiau i Aelodau Cynghorau Tref a Chymuned ychydig yn wahanol i'r uchod, gyda gwybodaeth ychwanegol mewn perthynas â'r canlynol: -

- Cofrestr o Ddiddordebau
- Rhoi gwybod am dorri amodau
- Diddordeb Personol a Diddordebau sy'n Rhagfarnu - Enghraifft Newydd
- Cofrestru Diddordebau

Gofynnodd yr Is-Gadeirydd am eglurhad mewn perthynas â'r pennawd 'Goddefebau' ac yn arbennig yr ymadrodd 'anabledd person'; yn enwedig y geiriad yn fersiwn Gymraeg y canllawiau diwygiedig. Ymatebodd y Cyfreithiwr (Llywodraethu Corfforaethol) y gellir gofyn am eglurhad gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn Fforwm Pwyllgorau Safonau Gogledd Cymru a gynhelir ym mis Hydref.

Cododd yr Is-Gadeirydd fater ynghylch beth fyddai disgwyliadau Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru pan fo Cynghorwyr Tref / Cymuned yn gwneud cwynion am ei gilydd a chrybwyllodd y mater 'Datrysiad Lleol' hefyd. Ymatebodd y Swyddog Monitro trwy ddweud, pe bai'n cael cwyn gan Gynghorwyr Tref / Cymuned, y byddai'n cynghori y dylid delio â'r mater yn lleol yn y lle cyntaf cyn i'r gŵyn gael ei throsglwyddo, os yn briodol, i Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru. Byddai'n dibynnu ar amgylchiadau'r achos.

**PENDERFYNWYD: -**

- **Nodi'r canllawiau diwygiedig a gyhoeddwyd gan yr Ombwdsmon.**
- **Cyfarwyddo'r Swyddog Monitro i sicrhau bod y canllawiau newydd, a'r newidiadau cyfreithiol perthnasol, fel y disgrifir nhw ym mharagraff 3 yr adroddiad, yn cael eu dwyn i sylw Aelodau'r Cyngor Sir.**
- **Gofyn i'r Swyddog Monitro sicrhau bod y canllawiau newydd, ynghyd a'r newidiadau cyfreithiol perthnasol, fel y disgrifir nhw ym mharagraff 3, yn cael eu dwyn i sylw Clercod y Cynghorau Tref / Cymuned a gofyn iddynt gadarnhau yn ysgrifenedig bod y canllawiau wedi eu rhannu gyda'u haelodau.**

**GWEITHREDU: Fel y nodir uchod.**

## 6 NODYN BRIFFIO I AELODAU AR Y NEWIDIADAU STATUDOL I'R CÔD YMDDYGIAD I AELODAU

Cyflwynwyd - adroddiad gan y Cyfreithiwr (Llywodraethu Corfforaethol) a oedd yn atodi nodyn briffio y bwriedir ei ddosbarthu i aelodau Cyngor Sir Ynys Môn ar y newidiadau statudol i'r Côd Ymddygiad.

**PENDERFYNWYD: -**

- **Nodi cynnwys y Nodyn Briffio;**
- **Cadarnhau y gellir dosbarthu'r Nodyn Briffio i'r Aelodau Etholedig yn enw'r Pwyllgor Safonau.**
- **Addasu'r nodyn briffio ar gyfer aelodau etholedig Cyngor Sir Ynys Môn fel bod modd dosbarthu dogfen debyg i Glercod y Cynghorau Tref a Chymuned i'w rhannu gyda'u haelodau.**

**GWEITHREDU: Fel y nodir uchod.**

## 7 CWYNION YNGHYLCH YMDDYGIAD I OMBWDSMON GWASANAETHAU CYHOEDDUS CYMRU

Cyflwynwyd - adroddiad gan y Cyfreithiwr (Llywodraethu Corfforaethol) ar ffurf matrics wedi'i ddiweddaru ar gyfer (a) Cynghorwyr Sir, a (b) Cynghorau Tref a Chymuned.

**PENDERFYNWYD nodi'r adroddiad er gwybodaeth.**

**GWEITHREDU: Dim**

## 8 PENDERFYNIADAU PANEL DYFARNU CYMRU

Cyflwynwyd - a nodwyd er gwybodaeth, grynodeb o benderfyniadau diweddaraf Panel Dyfarnu Cymru .

**PENDERFYNWYD nodi'r adroddiad er gwybodaeth.**

**GWEITHREDU: Dim**

## 9 FFORWM PWYLLGORAU SAFONAU

Cyflwynwyd - adroddiad gan y Cyfreithiwr (Llywodraethu Corfforaethol) ar y trefniadau ar gyfer cyfarfod nesaf Fforwm Pwyllgorau Safonau Gogledd Cymru a gynhelir ar 17 Hydref, 2016 yn Llangefni.

Dywedodd y Cyfreithiwr (Llywodraethu Corfforaethol) y bydd Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn bresennol yn y Fforwm ac os oes gan aelodau'r Pwyllgor Safonau unrhyw gwestiynau iddo rhaid eu cyflwyno i'r Cyfreithiwr (Llywodraethu Corfforaethol) erbyn 4 Hydref, 2016.

**PENDERFYNWYD nodi'r adroddiad.**

**GWEITHREDU: Rhaid cyflwyno unrhyw gwestiynau y mae aelodau'r Pwyllgor Safonau yn dymuno eu gofyn i Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus i'r Cyfreithiwr (Llywodraethu Corfforaethol) erbyn 4 Hydref 2016.**

## 10 CYFANSODDIAD Y PWYLLGOR SAFONAU

Cyflwynwyd - adroddiad gan y Cyfreithiwr (Llywodraethu Corfforaethol) ar newidiadau arfaethedig i Gyfansoddiad y Pwyllgor Safonau.

Dywedodd y Cyfreithiwr (Llywodraethu Corfforaethol) ei bod yn ofynnol i Bwyllgorau Safonau gyfarfod o leiaf unwaith bob blwyddyn. Yn ei gyfarfod a gynhaliwyd ar 12 Mai, 2016 penderfynodd y Pwyllgor Safonau ostwng nifer y cyfarfodydd cyffredin o 4 i 2 bob blwyddyn. Cynhelir cyfarfodydd arbennig o'r Pwyllgor Safonau hefyd i sicrhau y cydymffurfir ag unrhyw rwymedigaethau statudol a bydd cyfarfodydd anffurfiol yn parhau fel y bo angen. Nid oes angen newid Cyfansoddiad y Cyngor, ond mae angen newid Cyfansoddiad y Pwyllgor Safonau.

'Roedd Atodiad 1 a oedd ynghlwm wrth yr adroddiad yn cynnwys newidiadau i Gyfansoddiad y Pwyllgor Safonau a gwahoddwyd y Pwyllgor i awgrymu newidiadau eraill y bernir bod eu hangen. Dywedodd y Cyfreithiwr (Llywodraethu Corfforaethol) bod angen gwneud newid pellach i'r ddogfen 'Gweithdrefn ar gyfer Gwrandawiadau Safonau Lleol' – 14 Apeliadau; rhaid bellach cael caniatâd yn gan Banel Dyfarnu cyn y gellir cyflwyno apêl.

Soniodd yr Is-Gadeirydd am y pennawd 'Penderfyniad i gynnal gwrandawiad lleol' o fewn y Weithdrefn ar gyfer Gwrandawiadau Safonau Lleol (tudalen 152 yn yr Adroddiad) ac 'roedd yn ystyried y dylai'r geiriad ddarllen 'y gall bod tystiolaeth o fethiant gan yr Aelod i gydymffurfio â'r Côd Ymddygiad'. Cyfeiriodd ymhellach at y 'Weithdrefn Cyn-Gwrandawiad' pennawd (e) (tudalen 152 yn yr adroddiad) a bod angen ei ddiwygio i adlewyrchu'r broses dau gam a ddilynir. Yn ogystal, mae angen diwygio'r pennawd 'Camau gweithredu yn dilyn methiant i gydymffurfio gyda'r Côd Ymddygiad' (tudalen 159 a rhan (dd) o'r adroddiad) i adlewyrchu pan fydd unrhyw sancsiwn yn cael ei osod. Ymatebodd y Swyddog Monitro y gellid cynnwys hyn fel cwestiwn i'r Ombwdsmon yn ystod Fforwm Pwyllgorau Safonau Gogledd Cymru.

**PENDERFYNWYD: -**

- **Mabwysiadu Cyfansoddiad Pwyllgor Safonau Cyngor Sir Ynys Môn fel y sefydlwyd ef yn unol â Rhan III Deddf Llywodraeth Leol 2000 gyda'r newidiadau anodedig a geir yn Atodiad 1 a oedd ynghlwm wrth yr adroddiad a'r newidiadau pellach a drafodwyd;**
- **Codi cwestiwn gyda'r Ombwdsmon yn ystod Fforwm Pwyllgor Safonau Gogledd Cymru a gynhelir ar 17 Hydref, 2016 mewn perthynas â chanllawiau i'r Pwyllgor Safonau ar sancsiynau.**
- **Wedi hynny, cyhoeddi Cyfansoddiad diwygiedig y Pwyllgor Safonau, ynghyd â'r atodiadau, ar wefan y Cyngor Sir.**

**GWEITHREDU: Fel y nodir uchod.**

## 11 MABWYSIADU'R CÔD YMDDYGIAD STATUDOL DIWYGIEDIG A'R GOFYNION HYSBYSEBU

Cyflwynwyd - adroddiad gan y Cyfreithiwr (Llywodraethu Corfforaethol) yn rhoi gwybod i Aelodau am fabwysiadu’r Côd Ymddygiad diwygiedig a gynhwysir yng Ngorchymyn Awdurdodau Lleol (Côd Ymddygiad Enghreifftiol) (Cymru) (Diwygiad) 2016 a’r gofynion mabwysiadu yn dilyn ei fabwysiadu. Daeth y Gorchymyn i rym ar 1 Ebrill, 2016.

Dywedodd y Swyddog Monitro fod gan bob awdurdod y mae’r Côd yn berthnasol iddo tan 26 Gorffennaf i fabwysiadu'r Côd Ymddygiad diwygiedig. Nodwyd bod y Cyngor llawn, yn ei gyfarfod a gynhaliwyd ar 12 Mai, 2016, wedi mabwysiadu’r Cod Ymddygiad diwygiedig.

Anfonwyd e-bost ar ran y Pwyllgor Safonau i holl Glercod y Cynghorau Tref a Chymuned ar 25 Mai 2016 yn gofyn am gopi o'r cofnod perthnasol o gyfarfodydd y Cyngor sy'n cadarnhau y mabwysiadwyd y Côd diwygiedig. ‘Roedd matrics yn dangos sut mae pob Cyngor Tref a Chymuned wedi ymateb ynghlwm fel Atodiad 3 i'r adroddiad a rhoddwyd diweddariad llafar ynghylch y Cynghorau hynny a oedd wedi ymateb ar ôl i’r matrics gael ei lunio. Hyd yma nid yw 5 Cyngor Cymuned wedi ymateb. ‘Roedd y Pwyllgor Safonau yn ystyried y dylid gofyn i Aelod(au) Etholedig lleol sôn wrth y Cynghorau Cymuned hynny bod rhaid mabwysiadu’r Côd diwygiedig ac y dylid ymateb i gais y Swyddog Monitro bod Cynghorau Tref a Chymuned yn cadarnhau eu bod wedi mabwysiadu'r Côd diwygiedig.

Ar ôl ei fabwysiadu, yn unol ag Adran 51 (6) Deddf Llywodraeth Leol 2000, rhaid gosod hysbyseb mewn un neu ragor o bapurau newydd sy'n cylchredeg yn yr ardal leol yn cadarnhau y mabwysiadwyd y Côd Ymddygiad ac yn nodi pa bryd ac ym mha le y mae ar gael i'w harchwilio.

Holodd Aelodau'r Pwyllgor a oedd cynnwys hysbyseb mewn Papur Cymunedol lleol (Papur Bro) yn ddigonol o ran cwrdd â’r gofynion bod Cynghorau Tref / Cymuned yn hysbysu'r gymuned fod y Côd Ymddygiad wedi ei fabwysiadu ynghyd â manylion ynghylch ble a phryd yr oedd ar gael i'w harchwilio. Eglurodd y Swyddog Monitro bod y ddeddfwriaeth yn dweud 'papurau newydd sy'n cylchredeg yn eu hardal' ac felly ymatebodd ei bod yn ystyried ei bod yn briodol i hysbysebu yn y Papur Bro ar yr amod ei fod yn cylchredeg yn yr ardal y mae’r cyngor tref neu'r cyngor cymuned yn gweithredu ynddi. Fodd bynnag, crybwyllwyd hefyd fod angen i'r hysbyseb fod yn ddwyieithog ac fel arfer mae’r Papurau Bro yn y Gymraeg yn unig ac felly gallai fod yn fwy priodol i ystyried hysbysebu yn y ‘Chronicle’ neu'r ‘Mail’.

**PENDERFYNWYD: -**

- **Nodi cynnwys yr adroddiad;**
- **Cysylltu â Chlercod y Cynghorau Cymuned / Tref sydd heb ymateb i ofyn eto am gadarnhad bod eu Cynghorau wedi mabwysiadu’r Côd Ymddygiad a gofyn iddynt ddarparu copi o'r cofnod perthnasol o gyfarfodydd y Cyngor sy'n cadarnhau eu bod wedi mabwysiadu'r Côd diwygiedig;**
- **Gofyn i'r Aelod(au) Lleol Etholedig ar gyfer yr ardaloedd lle nad yw’r Cynghorau Cymuned wedi cadarnhau eu bod wedi mabwysiadu’r Côd Ymddygiad i godi’r mater yng nghyfarfod nesaf y Cynghorau Cymuned hynny ac i adrodd yn ôl i'r Safonau Pwyllgor.**

**GWEITHREDU: Fel y nodir uchod.**

## 12 Y GOFYNION SYDD AR GYNGHORWYR CYMUNED O RAN DATGAN DIDDORDEBAU

Cyflwynwyd - adroddiad gan y Cyfreithiwr (Llywodraethu Corfforaethol) ar y gofynion cyfredol mewn perthynas â datgan diddordeb gan Gynghorwyr Cymuned.

Dywedodd y Swyddog Monitro fod Ddeddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2015 wedi egluro'r sefyllfa o ran cofrestru diddordeb gan Gynghorwyr Tref a Chymuned. Cyn yr adolygiadau a wneir gan y Pwyllgor Safonau, mae angen i'r Pwyllgor fod yn ymwybodol o'r disgwyliadau statudol ar Gynghorau Tref a Chymuned gam mai’r rhain yw’r safonau y bydd yr adolygiadau yn asesu cydymffurfiaeth yn eu herbyn.

Nodwyd bod dyfyniad o gyngor dyddiedig 10 Awst, 2015 a roddwyd gan Unllais Cymru i'w aelodau ynghlwm yn Atodiad 1 i'r adroddiad. Roedd y cyngor hwnnw yn datgan nad oes raid i Gynghorwyr Tref a Chymuned gwblhau cofrestr 'sefydlog' o ddiddordebau. Dywedodd y Swyddog Monitro ei bod yn ymddangos fod peth dryswch ar y mater hwn gyda gwahanol gynghorion yn cael eu cyhoeddi i Gynghorau Tref / Cymuned gyda disgwyliadau sy'n tynnu'n groes i'w gilydd. Fodd bynnag, derbyniwyd bod y nodyn o gyngor gan Unllais Cymru yn Atodiad 1 yr adroddiad yn egluro'r sefyllfa gyfredol yn gwbl gywir. Yn ogystal, mae canllawiau dyddiedig 2 Mawrth 2016 gan Is-adran Democratiaeth Llywodraeth Leol Llywodraeth Cymru yn cadarnhau bod 'yr eithriad ar gyfer cynghorwyr cymuned rhag y gofyniad i gofrestru rhai diddordebau ariannol a rhai diddordebau eraill ymlaen llaw yn parhau'.

Amlygwyd y gofynion cofrestru o dan y côd ymddygiad ar gyfer Cynghorwyr Tref a Chymuned yn rhannau 2 (a) i (i) yr adroddiad.

**PENDERFYNWYD: -**

- **Nodi'r gofynion o ran y Gofrestr o Ddiddordebau y mae'n ofynnol i Glercod ei chynnal yn dilyn datgeliadau gan aelodau o'u Cyngor Cymuned / Tref.**
- **Ystyried y gofynion hyn pan fydd y Pwyllgor Safonau yn adolygu Cofrestrau o Ddiddordebau sampl o Gynghorau Tref a Chymuned.**

**GWEITHREDU: Fel y nodir uchod.**

## 13 ADOLYGIAD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU O'R COFRESTRAU DIDDORDEB AR GYFER CYNGHORAU TREF A CHYMUNED

Cyflwynwyd - adroddiad gan y Cyfreithiwr (Llywodraethu Corfforaethol) ar yr adolygiad sydd i'w gynnal gan y Pwyllgor Safonau o'r Cofrestrau o Ddiddordeb a gedwir gan Gynghorau Tref a Chymuned.

Adroddodd y Cyfreithiwr (Llywodraethu Corfforaethol) bod gohebiaeth wedi ei hanfon ar 27 Mehefin, 2016 at glercod y 40 Cyngor Tref / Cymuned yn gofyn a yw'r cofnodion ar gyfer y cyfnod o fis Mai 2013 ar gael ar wefannau Cynghorau Cymuned / Tref neu ar bapur fel y gellir gwneud trefniadau i'w hadolygu o bell neu i adolygu'r cofnodion perthnasol yn y lleoliad priodol. 'Roedd matrics yn dangos sut mae pob Cyngor Tref a Chymuned wedi ymateb ynghlwm yn Atodiad 1 i'r adroddiad. Cafwyd diweddariad llafar ynghylch y Cynghorau hynny a oedd wedi ymateb ar ôl i'r matrics gael ei gyhoeddi. Hyd yma nid yw 5 Cyngor Cymuned wedi ymateb.

Dywedodd y Cyfreithiwr (Llywodraethu Corfforaethol) ymhellach bod Cadeirydd y Pwyllgor Safonau wedi nodi yr adolygir Cofrestrau o Ddiddordeb 6 Chyngor Cymuned / Tref 6 fel y nodir yn yr adroddiad.

'Roedd Aelodau'r Pwyllgor Safonau yn ystyried y dylid anfon gohebiaeth bellach at y rheini sydd heb ymateb i holi pam nad ydynt wedi ymateb i'r cais am wybodaeth ynghylch cadw cofnodion ac y dylid gofyn i Aelod (au) Etholedig y Cyngor Sir godi'r mater yng nghyfarfod nesaf y Cyngor Cymuned ac adrodd yn ôl i Gadeirydd y Pwyllgor Safonau.

Ystyriwyd hefyd y dylid adolygu Cynghorau Tref Caergybi ac Amlwch yn gyntaf gan y Pwyllgor Safonau. Cynhelir cyfarfod ar ôl hynny cyn trafod y Cynghorau eraill a adolygir.

**PENDERFYNWYD: -**

- **Nodi cynnwys yr adroddiad a'r matrics yn Atodiad 1, yn amodol ar y diweddariad llafar;**
- **Anfon gohebiaeth bellach at y Cynghorau Tref / Cymuned sydd heb ymateb i'r cais a wnaed gan y Pwyllgor Safonau i adolygu eu cofnodion;**
- **Gofyn i'r Aelod (au) Etholedig sy'n mynychu cyfarfodydd y Cyngor Tref / Cymuned nad ydynt wedi ymateb i gais y Pwyllgor Safonau i godi'r mater yn y cyfarfodydd hynny ac adrodd yn ôl i Gadeirydd y Pwyllgor Safonau;**

- **Bod y Cadeirydd a Mrs. Dilys Shaw (Aelod Lleyg) yn adolygu cofnodion Cyngor Tref Caergybi a bod yr Is-Gadeirydd a Mrs. Denise Harris Edwards (Aelod Lleyg) yn adolygu cofnodion Cyngor Tref Amlwch ac yn adrodd yn ôl wedyn i'r Pwyllgor Safonau.**

**GWEITHREDU: Fel y nodwyd uchod.**

**MR. MICHAEL WILSON**
**CADEIRYDD**